



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

1 Samuel 2: 1, 2, 3, 4



- 1 Roedd Samuel yn gwasanaethu'r Arglwydd yn y deml gyda Eli.



- 2 Roedd Elcana a Hanna, ei rieni, yn byw yn Rama. Roedd ei fam yn arfer gwneud mantell fach iddo bob blwyddyn, ac yn dod â hi iddo pan fyddai hi a'i gŵr yn dod i fyny i gyflwyno eu haberth. Byddai Eli yn bendithio Elcana a'i wraig, a dweud, "Boed i'r ARGLWYDD roi plant i ti a Hanna yn lle yr un mae hi wedi ei fenthgy iddo." Yna bydden nhw'n mynd yn ôl adre. A dyma Duw yn gadael i Hanna gael mwy o blant. Cafodd dri o fechgyn a dwy ferch.



-
- 3 Roedd Eli yn heneiddio ac yn mynd yn ddall. Roedd ei feibion, Hoffni a Phineas, yn ddyinion drwg. Doedden nhw ddim yn parchu Duw na'u tad Eli.



- 4 Beth oedd yr offeiriad i fod i'w wneud pan oedd rhywun yn dod i offrymu aberth oedd hyn: Wrth iddyn nhw ferwi'r cig, byddai gwas yr offeiriad yn dod hefo fforch â tair pig iddi yn ei law. Byddai'n gwthio'r fforch i'r badell, y fasged neu'r crochan, a beth bynnag fyddai'r fforch yn ei godi, dyna oedd siâr yr offeiriad. Ond beth oedd yn digwydd yn Seilo oedd hyn: Roedd gwas yr offeiriad yn mynd atyn nhw cyn iddyn nhw hyd yn oed gael cyfle i losgi'r braster, a dweud wrth yr un oedd yn offrymu, "Rho beth o'r cig i'r offeiriad ei rostio. Does ganddo ddim eisiau cig wedi ei ferwi, dim ond cig ffres." Os oedd rhywun yn ateb, "Gad i'r braster gael ei losgi gynta, yna cei di gymryd beth bynnag wyt ti'n ei ffansio," byddai'r gwas yn dweud, "Na! rho fe i mi nawr. Os na wnei di, bydda i'n defnyddio grym." Roedd yr ARGLWYDD yn ystyried hyn yn bechod difrifol.



- 5 Hefyd roedden nhw'n cael rhyw gyda'r merched oedd yn gweini wrth y fynedfa i Babell Presenoldeb Duw.



-
- 6 Rhybuddiodd Eli ei feibion. Dwedodd wrthyn nhw fod raid iddyn nhw stopio. Ond gwrthododd Hoffi a Phineas wrando ar eu tad.



-
- 7 Yr un adeg, roedd y bachgen ifanc Samuel yn tyfu ac yn plesio'r ARGLWYDD a phobl.




-
- 8 Un noson, tra roedd Samuel hefyd yn cysgu yn y deml dyma'r ARGLWYDD yn galw ar Samuel, a dyma Samuel yn ateb, "Dyma fi," yna rhedeg at Eli a dweud, "Dyma fi, gwnest ti alw."



-
- 9 Ond dyma Eli'n ateb, "Naddo, wnes i ddim dy alw di, dos yn ôl i gysgu." Felly aeth Samuel yn ôl i orwedd. Dyma'r ARGLWYDD yn galw ar Samuel eto.



-
- 10 Cododd a mynd at Eli a dweud, "Dyma fi, gwnest ti ngalw i." "Naddo, machgen i," meddai Eli, "wnes i ddim dy alw di. Dos yn ôl i gysgu."



-
- 11 Roedd hyn i gyd cyn i Samuel ddod i nabod yr ARGLWYDD. Doedd e erioed wedi cael neges gan Dduw o'r blaen. Galwodd yr ARGLWYDD ar Samuel y trydydd tro; a dyma Samuel yn mynd at Eli a dweud, "Dyma fi, gwnest ti fy ngalw i."



-
- 12 Dyna pryd sylweddolodd Eli mai'r ARGLWYDD oedd yn galw'r bachgen. A dwedodd wrtho, "Dos yn ôl i gysgu. Pan fydd e'n dy alw di eto, ateb fel yma: 'Siarada ARGLWYDD, mae dy was yn gwrando.'"



-
- 13 Felly dyma Samuel yn mynd yn ôl orwedd i lawr. A dyma'r ARGLWYDD yn dod ato eto, a galw arno fel o'r blaen, "Samuel! Samuel!".



-
- 14 A dyma Samuel yn ateb, "Siarada, mae dy was yn gwrando."



-
- 15 A dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Samuel, "Dw i yn mynd i wneud rhywbeth yn Israel fydd yn sioc ofnadwy i bawb fydd yn clywed am y peth. Dw i'n mynd i gosbi teulu Eli am byth. Roedd e'n gwybod fod ei feibion yn mellithio Duw, ac eto wnaeth e ddim dweud y drefn wrthyn nhw. A dyna pam na fydd unrhyw aberth nac offrwm byth yn gallu gwneud iawn am eu pechod."



-
- 16 Roedd arno ofn dweud wrth Eli am y weledigaeth. Ond dyma Eli'n ei alw gofyn iddo, "Beth ddwedodd Duw wrthot ti? Paid cuddio dim oddi wrtho i." Felly dyma Samuel yn dweud popeth wrtho. Wnaeth e guddio dim. Ymateb Eli oedd, "Yr ARGLWYDD ydy e, a bydd e'n gwneud beth mae e'n wybod sydd orau."




-
- 17 Collodd Israel frwydr yn erbyn y Philistiaid. Felly dyma nhw'n penderfynu nôl Arch Ymrwymiad yr ARGLWYDD (Arch y Cyfamod) a mynd â'r Arch i ryfel gyda nhw. Roedden nhw'n credu y byddai hynny'n eu hachub nhw o afael y gelyn! Roedd Hoffni a Phineas gyda'r Arch. Nid oedd penderfyniad pobl Israel yn plesio Duw.



-
- 18 Dyma'r Philistiaid yn ymosod ar Israel eto. Collodd Israel y frwydr. Cafodd tua 30,000 o filwyr traed Israel eu lladd. Cafodd Arch Duw ei chipio hefyd, a cafodd Hoffni a Phineas, meibion Eli, eu lladd.



-
- 19 Roedd Eli'n eistedd ar gadair wrth ymyl y ffordd yn disgwyl am newyddion. Roedd yn poeni'n fawr am Arch Duw. Pan glywodd y bobl beth oedd wedi digwydd dyma pawb yn dechrau wylo'n uchel. Pan glywodd Eli am Arch Duw syrthiodd wysg ei gefn oddi ar ei gadair wrth ymyl y giât. Am ei fod mor hen, ac yn ddyn mawr trwm, torrodd ei wddf a marw.



20 Roedd gwraig Phineas yn disgwyl plentyn. Pan glywodd hi'r newyddion fod Arch Duw wedi ei chipio a bod Eli a'i gŵr wedi marw, plygodd yn ei dyblau am fod y plentyn yn dechrau dod. Ond roedd y poenau yn ormod iddi. Pan oedd hi ar fin marw dyma hi'n rhoi'r enw Ihabod i'r babi. "Mae ysblander Duw wedi gadael Israel," meddai (am fod Arch Duw wedi ei chipio a'i thad-yng-nghyfraith a'i gŵr wedi marw.)



21 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

www.freebibleimages.org
